

**Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn**  
**Answers to Questions not reached in Plenary**  
**11/10/2006**

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

**Cynnwys**  
**Contents**

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid  
Questions to the Finance Minister
  
- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad  
Questions to the Minister for Environment, Planning and Countryside

**Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid**  
**Questions to the Finance Minister**

**Blaenoriaethau Cyllido**  
**Funding Priorities**

**Q9 Helen Mary Jones:** What consideration did the Minister give to the funding priorities of the Welsh Assembly Government when formulating the overall budget? OAQ0632(FIN)

**C9 Helen Mary Jones:** Pa ystyriaeth a roddodd y Gweinidog i flaenoriaethau cyllido Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth lunio'r gyllideb gyffredinol? OAQ0632(FIN)

**The Finance Minister (Sue Essex):** The Assembly's budgets are aligned to the strategic priorities of 'Wales: A Better Country'. The proposed draft budget will reflect the application of these priorities, as well as pay and price pressures in the public sector and capital investment. The priorities of the subject committees have also been considered.

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Mae cyllidebau'r Cynulliad yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol 'Cymru: Gwlad Well'. Bydd y gyllideb ddrafft arfaethedig yn adlewyrchu'r blaenoriaethau hyn, yn ogystal â phwysau cyflogau a phrisiau yn y sector cyhoeddus a buddsoddiadau cyfalaf. Mae blaenoriaethau'r pwyllgorau pwnc hefyd wedi'u hystyried.

**Dyraniadau'r Gyllideb Gyffredinol**  
**Overall Budget Allocations**

**Q10 Karen Sinclair:** What factors did the Minister consider in determining the overall budget allocations within the Assembly's budget? OAQ0664(FIN)

**C10 Karen Sinclair:** Pa ffactorau a ystyriwyd gan y Gweinidog wrth bennu dyraniadau'r gyllideb gyffredinol o fewn cyllideb y Cynulliad. OAQ0664(FIN)

**Sue Essex:** The Assembly's budgets are aligned to the strategic priorities of 'Wales: A Better Country'. The proposed draft budget

**Sue Essex:** Mae cyllidebau'r Cynulliad yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol 'Cymru: Gwlad Well'. Bydd y gyllideb ddrafft

will reflect the application of these priorities, as well as pay and price pressures in the public sector and capital investment. The priorities of the subject committees have also been considered.

arfaethedig yn adlewyrchu'r blaenoriaethau hyn, yn ogystal â phwysau cyflogau a phrisiau yn y sector cyhoeddus a buddsoddiadau cyfalaf. Mae blaenoriaethau'r pwyllgorau pwnc hefyd wedi'u hystyried.

### **Y Dyraniad Cyffredinol The Overall Budget Allocation**

**Q11 Leanne Wood:** Will the Minister make a statement on the overall budget allocation to the social justice and regeneration portfolio? OAQ0637(FIN)

**C11 Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y dyraniad cyffredinol i'r portffolio cyfiawnder cymdeithasol ac adfywio? OAQ0637(FIN)

**Sue Essex:** The departmental expenditure line budget allocation for the social justice and regeneration portfolio will rise from £592 million in 2006-07 to £635 million in 2008-09. This represents an increase of 12 per cent.

**Sue Essex:** Bydd y swm a ddyrennir i gyllideb llinell wariant adrannol cyfiawnder cymdeithasol ac adfywio yn cynyddu o £592 miliwn yn 2006 -07 i £635 miliwn yn 2008-09. Mae hyn yn gynydd o 12 y cant.

### **Gwerth Cymru Value Wales**

**Q12 Lynne Neagle:** Will the Minister give a progress report on Value Wales? OAQ0667(FIN)

**C12 Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad cynnydd am Gwerth Cymru? OAQ0667(FIN)

**Sue Essex:** A permanent chief executive officer has been appointed who will take up post on 16 October. Efficiency savings prompted by Value Wales are now assessed to have exceeded £23.8 million—a further £4.65 million since my last update. This has been achieved principally through initiatives on collaborative procurement, e-auctions, and use of the Welsh purchasing card.

**Sue Essex:** Penodwyd prif weithredwr parhaol i ymgymryd â'r swydd ar 16 Hydref. Yn ôl asesiadau, llwyddwyd i arbed dros £28.8 miliwn drwy wella effeithlonrwydd yn dilyn gwaith gan Gwerth Cymru. Gwnaed hyn yn bennaf drwy fentrau'n ymwneud â phrosesau caffael cydweithredol, e-arwerthiannau a defnyddio cerdyn prynu Cymru.

### **Menter Cyllid Preifat Private Finance Initiative**

**Q13 Peter Black:** Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's use of private finance initiative? OAQ0658(FIN)

**C13 Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnydd Lywodraeth Cynulliad Cymru o'r fenter cyllid preifat? OAQ0658(FIN)

**Sue Essex:** We are using the private finance initiative to take forward projects in various policy areas, including 11 local government PFI projects. There are also three hospitals and a number of minor schemes undertaken by NHS trusts, the Bute Avenue and Callaghan Square project and a section of the A55.

**Sue Essex:** Yr ydym yn defnyddio'r fenter cyllid preifat i fwrw ymlaen â phrosiectau mewn meysydd polisi amrywiol, gan gynnwys 11 prosiect menter cyllid preifat llywodraeth leol. Mae hefyd tri ysbyty a nifer o fân gynlluniau gan ymddiriedolaethau'r GIG, prosiect Bute Avenue a Callaghan Square a rhan o'r A55.

## **Defnydd Effeithlon o Arian Cyhoeddus Efficient use of Public Money**

**Q14 Mark Isherwood:** Will the Minister make a statement on measures taken to ensure efficient use of public money in Wales? OAQ0647(FIN)

**C14 Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gamau a gymerwyd i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon yng Nghymru? OAQ0647(FIN)

**Sue Essex:** I am committed to improving efficiency and effectiveness in the way our resources are used. Our budget planning process continually tests financial allocation against strategic objectives and only increases funding to areas where we are confident of increased output.

**Sue Essex:** Yr wyf wedi ymrwymo i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y ffordd y caiff ein hadnoddau eu defnyddio. Drwy'n proses o gynllunio'r gyllideb, byddwn yn mesur dyraniadau ariannol yn erbyn amcanion strategol yn barhaus ac ni fyddwn yn rhoi rhagor o arian i unrhyw faes oni bai ein bod yn ffyddiog y bydd cynnydd o ran cynnyrch.

## **Atebolrwydd Ariannol Financial accountability**

**Q15 Mick Bates:** Will the Minister make a statement on measures in place to ensure the financial accountability of Assembly sponsored public bodies? OAQ0652(FIN)

**C15 Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y mesurau sydd ar waith i sicrhau atebolrwydd ariannol cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad? OAQ0652(FIN)

**Sue Essex:** All ASPBs are required to demonstrate that they are conducting their operations as economically, efficiently and effectively as possible. The annual report and audited accounts are the main means by which the Assembly, Ministers, taxpayers and customers can judge whether ASPBs are securing value for money in their operations.

**Sue Essex:** Mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad ddangos ei fod yn gweithredu mor ddiwastraff ac mor effeithlon ac effeithiol â phosibl. Yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon archwiliedig yw'r prif ddulliau sydd ar gael i'r Cynulliad, Gweinidogion, trethdalwyr a chwsmeriaid farnu a yw gwaith cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn sicrhau gwerth am arian.

## **Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad Questions to the Minister for Environment, Planning and Countryside**

### **Targedau Ailgylchu Recycling Targets**

**Q11 Val Lloyd:** Will the Minister make a statement on support that he is giving to local authorities to meet recycling targets? OAQ0884(EPC)

**C11 Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth y mae'n ei rhoi i awdurdodau lleol er mwyn iddynt allu cyflawni'r targedau ailgylchu? OAQ0884(EPC)

**The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones):** The Assembly Government is providing grants to help local authorities meet recycling targets,

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi grantiau i helpu awdurdodau lleol i

and has contributed £6.8 million towards the strategic recycling scheme. We also fund Waste Awareness Wales to carry out education and promotion in support of local authority recycling and market development organisations to promote markets for recycle.

gyflawni'u targedau ailgylchu, ac mae wedi cyfrannu £6.8 miliwn tuag at y cynllun ailgylchu strategol. Yr ydym hefyd yn ariannu cynllun Craff am Wastraff i addysgu a hyrwyddo er mwyn hybu cynlluniau ailgylchu awdurdodau lleol a chyrrff datblygu marchnadoedd i hyrwyddo marchnadoedd ar gyfer deunydd ailgylchu

### **Allyriadau Carbon Carbon Emissions**

**Q12 Ann Jones:** Will the Minister make a statement on any proposals the Welsh Assembly Government has to offset carbon emissions from ministerial and official air travel? OAQ0864(EPC)

**C12 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw gynigion sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i wrthbwysu allyriadau carbon o deithiau awyr gan Weinidogion a swyddogion? OAQ0864(EPC)

**Carwyn Jones:** We are considering how we can best offset the carbon emissions from Ministerial and official travel, including air travel, as part of our efforts to minimise the impact of our day-to-day business on the environment.

**Carwyn Jones:** Yr ydym yn ystyried beth yw'r ffordd orau o wrthbwysu allyriadau carbon o deithiau gan Weinidogion a swyddogion, gan gynnwys teithiau awyr, fel rhan o'n hymdrechion i leihau effaith ein busnes o ddydd i ddydd ar yr amgylchedd.

### **Nodyn Cyngor Technegol 8 Technical Advice Note 8**

**Q13 Janice Gregory:** Will the Minister make a statement on TAN 8 on renewable energy, specifically relating to strategic search area F? OAQ0847(EPC)

**C13 Janice Gregory:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am TAN 8 am ynni adnewyddadwy, yng nghyswllt ardal chwilio strategol F yn benodol? OAQ0847(EPC)

**Carwyn Jones:** TAN 8 should be taken into account by local planning authorities in the preparation of local development plans and may be material to decisions on individual planning applications. Local planning authorities are best placed to assess detailed locational requirements relating to particular strategic search areas in the light of local circumstances.

**Carwyn Jones:** Dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried TAN 8 wrth baratoi cynlluniau datblygu lleol a gall fod yn berthnasol i benderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio unigol. Mae awdurdodau cynllunio lleol yn y sefyllfa orau i asesu gofynion lleoliadol manwl mewn perthynas ag ardaloedd chwilio strategol o ystyried amgylchiadau lleol.

### **Mynediad Agored i Gefn Gwlad Open Access to the Countryside**

**Q14 John Griffiths:** Will the Minister make a statement on progress made with open access to the countryside in Wales? OAQ0900(EPC)

**C14 John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd sydd wedi'i wneud gyda mynediad agored i gefn gwlad Cymru? OAQ0900(EPC)

**Carwyn Jones:** The new public right of access to open country under the Countryside and Rights of Way Act 2000 was

**Carwyn Jones:** Cafodd hawliau newydd y cyhoedd o ran mynediad agored i gefn gwlad o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau

successfully introduced across Wales on 28 May 2005. Since then, local authorities and other partners have been working to integrate the new access areas into other countryside recreation opportunities.

Tramwy 2000 eu cyflwyno'n llwyddiannus ar hyd a lled Cymru ar 28 Mai 2005. Ers hynny, mae awdurdodau lleol a phartneriaid eraill wedi bod yn gweithio i gynnwys yr ardaloedd mynediad newydd mewn cyfleoedd hamdden eraill yng nghefn gwlad.

### **Sefydlu Ardaloedd Triniaeth Ddwys The Establishment of Intensive Treatment Areas**

**C15 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sefydlu ardaloedd triniaeth ddwys? OAQ0888(EPC)

**Q15 Rhodri Glyn Thomas:** Will the Minister make a statement on the establishment of intensive treatment areas? OAQ0888(EPC)

**Carwyn Jones:** I recently announced a number of further measures to help control bovine TB in Wales, including the establishment of a biosecurity intensive treatment area in south-west Wales in the autumn.

**Carwyn Jones:** Cyhoeddais yn ddiweddar nifer o fesurau ychwanegol i helpu i reoli TB mewn gwartheg yng Nghymru, gan gynnwys sefydlu ardal triniaeth ddwys ar gyfer bioddiogelwch yn ne-orllewin Cymru yn yr hydref.